Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 29.06.2021

## COVID-19: Cymorth Mai/Mehefin i fusnesau gyda throsiant cyn Covid o dan £85k yn cau yfory

Bydd y Gronfa Cadernid Economaidd (ERF) i fusnesau gyda throsiant cyn COVID o dan £85,000 yn cau am 5:00pm yfory, 30 Mehefin 2021. Gall busnesau yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y cyfyngiadau sydd ar waith yn ystod mis Mai a mis Mehefin wneud cais am gymorth i gwrdd eu costau gweithredu. Peidiwch ag oedi – i wirio'ch cymhwysedd, ewch i:

https://fundchecker.businesswales.gov.wales/businesssupport/cy

## COVID-19: Mesurau i amddiffyn busnesau rhag cael eu troi allan i barhau

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd busnesau sy'n dioddef effeithiau pandemig y Coronafeirws yn cael eu hamddiffyn rhag cael eu troi allan tan ddiwedd mis Medi 2021 (yn wreiddiol i ddod i ben ar 30 Mehefin 2021). Dylai busnesau barhau i dalu rhent pryd bynnag y bo modd, ond ni

fyddant yn fforffedu eu tenantiaethau busnes am beidio â thalu rhent tan 30 Medi eleni. I ddarllen y datganiad yn llawn, ewch i:

https://bit.ly/3x0rud8

# COVID-19: Profion Llif Unffordd(LFTs) | Brechu

Yng Nghymru, gall pobl sydd ddim yn medru gweithio o gartref gael prawf llif unffordd i'w hunain a'u teuluoedd. Dylid annog staff – yn enwedig y rhai mewn rolau sy'n wynebu cwsmeriaid – i brofi eu hunain yn rheolaidd.

Mae canolfan dosbarthu LFT's wedi ei leoli Maes Parcio Stryd y Deon, Bangor LL57 1UT, ac mae ar agor o 8:00am – 1:00pm yn ddyddiol. Mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer mwy o ganolfannau dosbarthu LFT's yng Ngwynedd, a byddwn yn cylchredeg y manylion pan fyddant ar gael.

Gellir hefyd archebu citiau prawf cartref 7 prawf ar-lein trwy fynd i:

https://test-for-coronavirus.service.gov.uk/order-lateral-flow-kits/condition

Chwaraewch eich rhan trwy annog eich staff i dderbyn y cynnig o frechiad i bob oedolyn dros 18 oed. Gellir archebu apwyntiadau trwy ffonio 0300 084 0004 neu trwy fynd i:

https://bipbc.gig.cymru/covid-19/gwybodaeth-brechlyn-covid-19/

# DYSGU: Podlediad Eryri

Mae Podlediad Eryri yn bodlediad sy'n trafod materion yn ymwneud a phrif nodau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae rhai rhifynnau yn y Gymraeg a rhai yn y Saesneg, gyda'r podlediad nesaf i'w ryddhau yn fuan gyda'r teitl 'The 2021 Visitor Season'. I gael mynediad, ewch i:

https://bit.ly/PodlediadEryriPodcast

# RHWYDWEITHIO: Rhwydweithio Rhithwir FSB Gogledd Cymru

Ymunwch â digwyddiad rhwydweithio rheolaidd FSB Gogledd Cymru i gwrdd â busnesau eraill o'r un anian, gwneud cysylltiadau newydd, meithrin rhai sy'n

bodoli eisoes a chlywed am yr hyn y mae busnesau bach eraill yn ei wneud ar hyn o bryd.

- Dydd Gwener 2 Gorffennaf 2021, 12.00pm
  Archebwch yma: https://bit.ly/35X9vZ5

- Dydd Gwener 9 Gorffennaf 2021, 12.00pm
  Archebwch yma: https://bit.ly/3A2YJhQ

Am fwy o wybodaeth am holl ddigwyddiadau FSB, ewch i:

http://bit.ly/3r6ZEbn

Cyfrif Twitter FSB Cymru:

https://twitter.com/FSB_Wales

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru